

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
Questions to the Minister for Economic Development and Transport

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

Tynnwyd cwestiwn 11 (OAQ39700) yn ôl.

Question 11 (OAQ39700) withdrawn.

Yr Asiantaeth Benthyciadau i Wella Cartrefi Cymru The Welsh Home Improvement Lending Agency

Q12 Mark Isherwood: Would the Minister make a statement on the Welsh home improvement lending agency? (OAQ39742)

Q12 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr asiantaeth benthyciadau i wella cartrefi Cymru? (OAQ39742)

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): We are currently working with local authorities and existing intermediary lending agencies to develop pilots for loan arrangements in Wales. This approach was recommended by the Audit Committee and offers advantages to authorities without the need for a separate agency. I have recently advised the Social Justice and Regeneration Committee of the steps we already have taken, and which are continuing, including discussions with local authorities and intermediary agencies. We hope the pilots will be in place within the next six months or so.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Yr ydym yn gweithio ar hyn o bryd gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau benthycia canolraddol cyfredol i ddatblygu cynlluniau peilot ar gyfer trefniadau benthycia yng Nghymru. Argymhelwyd y dull gwaith hwn gan y Pwyllgor Archwilio, ac mae'n cynnig manteision i awdurdodau heb orfod cael asiantaeth ar wahân. Yr wyf wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn ddiweddar am y camau yr ydym wedi'u cymryd, ac sy'n parhau, gan gynnwys trafodaethau gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau canolraddol. Gobeithiwn y bydd y cynlluniau peilot ar waith o fewn rhyw chwe mis.

Cymorth i Fenywod Women's Aid

Q13 Sandy Mewies: Could the Minister make a statement on the support that the Welsh Assembly Government has provided to Women's Aid in Wales? (OAQ39725)

Q13 Sandy Mewies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddarparu i Cymorth i Fenywod yng Nghymru? (OAQ39725)

Edwina Hart: The Assembly Government values the work being done by Welsh Women's Aid in combating domestic violence in Wales and is providing this organisation with £341,640 of core funding in the present financial year. We are also providing Welsh Women's Aid with some £680,000 between 2003-06 for the provision of a free telephone helpline for the victims of domestic abuse in Wales.

Edwina Hart: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwerthfawrogi'r gwaith a wneir gan Cymorth i Fenywod yng Nghymru o ran brwydro yn erbyn trais yn y cartref, ac mae'n rhoi £341,640 o gyllid craidd i'r corff hwn yn y flwyddyn ariannol bresennol. Yr ydym hefyd yn rhoi £680,000 i Cymorth i Fenywod yng Nghymru rhwng 2003-06 er mwyn darparu llinell gymorth ffôn i ddiodefwyr camdriniaeth ddomestig.

Y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref The Home Energy Efficiency Scheme

Q14 Alun Ffred Jones: Will the Minister make a statement on the home energy efficiency scheme in Wales? (OAQ39689)

C14 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (CEYC) yng Nghymru? (OAQ39689)

Edwina Hart: The home energy efficiency scheme is our main vehicle for lifting Welsh households out of fuel poverty. HEES has a budget of £14.1 million for the current financial year. I am pleased to be able to confirm that the scheme has met the target in the fuel poverty commitment for Wales to assist 38,000 households in Wales by March 2004. We have commissioned research relating to fuel poverty and an interim evaluation of HEES, which will look into its delivery mechanisms and the adequacy of assistance offered. We hope to conclude the reviews by the end of 2004, and the information of the reviews should be made available to committee on 26 January 2005.

Edwina Hart: Y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yw ein prif gyfrwng ar gyfer codi cartrefi o dlodi tanwydd. Mae gan HEES gyllid o £14.1 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Yr wyf yn falch o allu cadarnhau bod y cynllun wedi cyrraedd y targed yn yr ymrwymiad tlodi tanwydd dros Gymru i helpu 38,000 o dai yng Nghymru erbyn Mawrth 2004. Yr ydym wedi comisiynu ymchwil yn ymwneud â thlodi tanwydd a gwerthusiad dros dro o HEES, a fydd yn ystyried ei ddulliau cyflwyno ac addasrwydd y cymorth a gynigir. Gobeithiwn orffen yr adolygiadau erbyn diwedd 2004, a dylai'r wybodaeth o'r adolygiadau fod ar gael i'r pwyllgor erbyn 26 Ionawr 2005.

Hyrwyddo'r Sector Gwirfoddol Promoting the Voluntary Sector

Q15 David Melding: What meetings has the Minister had in connection with promoting the voluntary sector in South Wales Central? (OAQ39738)

C15 David Melding: Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghanol De Cymru? (OAQ39738)

Edwina Hart: Since being appointed Minister with responsibility for the voluntary sector, I have met with a wide range of voluntary organisations in different parts of Wales, including South Wales Central. For example, the Voluntary Sector Partnership Council met in Cardiff in July. I will continue to meet as many organisations as I can because I want a real and ongoing dialogue with the sector at all levels. I intend to make sure that the support that the Assembly Government provides meets their needs.

Edwina Hart: Ers i mi gael fy mhenodi fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y sector gwirfoddol, yr wyf wedi cyfarfod ag ystod helaeth o gyrff gwirfoddol mewn gwahanol rannau o Gymru, gan gynnwys Canol De Cymru. Er enghraifft, bu i Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol gyfarfod yng Nghaerdydd fis Gorffennaf. Byddaf yn parhau i gyfarfod â chymaint o sefydliadau â phosibl gan fy mod am gael deialog gwirioneddol a pharhaus gyda'r sector ar bob lefel. Bwriadaf sicrhau bod y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad yn diwallu eu hanghenion.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport

Y Panel Cynghorol ar Ymchwil Economaidd Economic Research Advisory Panel

Q9 Irene James: Will the Minister make a statement about the work of the economic research advisory panel? (OAQ39821) *Transferred for answer by the First Minister.*

C9 Irene James: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch gwaith y panel cynghorol ar ymchwil economaidd? (OAQ39821) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

The First Minister (Rhodri Morgan): The economic research advisory panel is providing valuable advice to the Welsh Assembly Government on its programme of economic research. The panel's second annual report, providing full details of its activities, will be published in the new year. The panel was established in May 2002, with members appointed for a three year-period. The process of appointing members for a further period has just commenced.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae'r panel cynghorol ar ymchwil economaidd yn darparu cyngor gwerthfawr i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ei rhaglen ymchwil economaidd. Cyhoeddir ail adroddiad blynyddol y panel, sy'n darparu manylion llawn ynglŷn â'i weithgareddau, yn y flwyddyn newydd. Sefydlwyd y panel ym mis Mai 2002, gydag aelodau'n cael eu penodi am gyfnod o dair blynedd. Mae'r broses o benodi aelodau am gyfnod pellach newydd gychwyn.

Gofynion Cyflogwyr o Ran Hyfforddiant The Training Needs of Employers

Q10 Janet Ryder: Will the Minister make a statement on the training needs of employers? (OAQ39768)

C10 Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ofynion cyflogwyr o ran hyfforddiant? (OAQ39768)

The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies): The training and skills agenda is the responsibility of my Cabinet colleague, the Minister for Education and Lifelong Learning, but I can tell you that employers are fully engaged. This includes membership of National Council—Elwa and its regional committees, the Future Skills Wales employment forum and through the new skills for business network.

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies): Cyfrifoldeb fy nghyd-Aelod yn y Cabinet, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, yw'r agenda hyfforddiant a sgiliau, ond gallaf ddweud wrthyfch bod cyflogwyr yn cael eu cynnwys yn llawn. Mae hynny'n cynnwys bod yn aelod o'r Cyngor Cenedlaethol—Elwa a'i bwyllgorau rhanbarthol, fforwm cyflogaeth Sgiliau Dyfodol Cymru a drwy gyfrwng y rhwydwaith sgiliau newydd ar gyfer busnes.

Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cardiff International Airport

Q11 David Melding: Will the Minister make a statement on measures to promote Cardiff international airport? (OAQ39829)

C11 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau i hybu Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd? (OAQ39829)

Andrew Davies: The Assembly Government is committed to the development of Cardiff international airport. We are investigating the scope for a route development fund to support international services, as well as taking forward

Andrew Davies: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i ddatblygiad maes awyr rhyngwladol Caerdydd. Yr ydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o greu cronfa datblygu llwybr i gefnogi gwasanaethau rhyngwladol, yn ogystal â

work on intra-Wales services. We are also improving surface access to the airport, including the re-introduction of passenger rail services on the Vale of Glamorgan line.

bwrw ymlaen â gwaith ar wasanaethau o fewn Cymru. Yr ydym hefyd yn gwella mynediad dros y tir at y maes awyr, gan gynnwys ail-gyflwyno gwasanaethau trên i deithwyr ar lein Bro Morgannwg.

Manteision Economaidd Canolfan Mileniwm Cymru The Economic Benefits of the Wales Millennium Centre

Q12 Owen John Thomas: Will the Minister make a statement on the economic benefits of the Wales Millennium Centre? (OAQ39827)

C12 Owen John Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fanteision economaidd Canolfan Mileniwm Cymru? (OAQ39827)

Andrew Davies: The Assembly Government's capital and annual investment in WMC will result in jobs growth, increased spending on goods and services, and increased profiling for Cardiff and Wales. In its first year of operation, WMC is anticipating total visitation of 600,000, which will bring around £3.5 million into the local economy.

Andrew Davies: Bydd buddsoddiad cyfalaf a buddsoddiad blynyddol Llywodraeth y Cynulliad yn y ganolfan yn arwain at gynnydd mewn swyddi, cynnydd yn y gwariant ar nwyddau a gwasanaethau, a phroffil uwch i Gaerdydd a Chymru. Yn ystod y flwyddyn gyntaf y bydd y ganolfan ar agor mae'n rhagweld y caiff 600,000 o ymwelwyr, a fydd yn dod ag oddeutu £3.5 miliwn i'r economi leol.

Effeithiau Dyled Bersonol The Effects of Personal Debt

Q13 Leanne Wood: Will the Minister make a statement on the effects of personal debt on the Welsh economy? (OAQ39770)

C13 Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effeithiau dyled bersonol ar economi Cymru? (OAQ39770)

Andrew Davies: Most personal debt consists of mortgages on houses. A recent Bank of England study—for the UK as a whole—concludes that: households currently tend to borrow a lower proportion of the value of their property than in the past; the fall in inflation and in interest rates since 1990 means that repayments, as a proportion of disposable income, are lower than they were in 1990, on average, despite the rise in the debt to income ratio; and that fewer households now than in the late 1980s combine low collateral in their property with high debt repayment commitments. There are no grounds for believing that current levels of indebtedness are having a material adverse effect on the Welsh economy.

Andrew Davies: Mae'r rhan fwyaf o ddyled bersonol yn ymwneud â morgeisi ar dai. Daeth astudiaeth ddiweddar gan Fanc Lloegr—ar gyfer y DU gyfan—i'r casgliad bod teuluoedd ar hyn o bryd yn tueddu i fenthyg cyfran is o werth eu heiddo nag yr oeddent yn y gorffennol, bod y gostyngiad mewn chwyddiant ac mewn cyfraddau llog er 1990 yn golygu bod ad-daliadau, fel cyfran o'r incwm sydd ar gael gan bobl i'w wario, yn is nag oeddynt yn 1990, ar gyfartaledd, er y cynnydd yn y gymhareb dyled i incwm, a bod llai o deuluoedd yn awr nag yr oedd ar ddiwedd y 1980au yn cyfuno gwarant gyfochrog yn eu heiddo gydag ymrwymadau ad-dalu dyled uchel. Nid oes sail i gredu bod lefelau cyfredol o orddyled yn cael effaith andwyol sylfaenol ar economi Cymru.

Gwasanaethau Trenau Train Services

Q14 Ieuan Wyn Jones: Will the Minister make a statement on discussions that he has had with rail operators running train services in Wales? (OAQ39762)

C14 Ieuan Wyn Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau y mae wedi eu cael â chwmnïau rheilffyrdd sy'n rhedeg gwasanaethau trenau yng Nghymru? (OAQ39762)

Andrew Davies: The Assembly Government is making a significant funding contribution to the development of rail services, and I discuss how improvements will take place, including issues arising on punctuality and quality.

Andrew Davies: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu arian sylweddol i ddatblygu gwasanaethau trên, a byddaf yn trafod sut y bydd gwelliannau'n cael eu gweithredu, gan gynnwys materion yn ymwneud â gwasanaethau'n cyrraedd ar amser a safon gwasanaethau.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ39813) yn ôl.
Question 15 (OAQ39813) withdrawn.*